# CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

**Cadeirydd: Alun Owen**

Nos Lun Mehefin 5ed 2023 am 7.30 y.h

## Cofnodion (107)

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd Cyng. Gari B Jones

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gethin Pyrs, Gwynfor H Roberts.
2. **Presennol:** Cyng. Dewi Ll Evans, Gari B Jones, Gerallt Jones, Edmund Rees, Cyng. Sirol Gwennol Ellis, ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb yn datgan diddordeb
4. **Cofnodion mis Mai:** Derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir gan ER gyda GJ yn eilio
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
   5.1.1. Arolwg Tai Fforddiadwy – amlinellodd y Cynghorydd fwriad CBSC i drosglwyddo'r darn o dir mewn gwyrdd sy'n cynnwys y maes parcio a'r 'teras' (map wedi ei atodi) i ofal y Cyngor Cymuned ac os nad oedd diddordeb, ei werthu ar y farchnad agored. Yn dilyn arolwg Tai a gynhaliwyd fel rhan o brosesau gwaredu eiddo'r Cyngor a'r adroddiad dilynol, roedd 3 datganiad diddordeb ffurfiol wedi dod i law, er bod tua 12 ymholiad wedi bod ar lafar. Mae Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai'r Cyngor yn cynnal ymholiadau i godi tai ar y darn o dir a amlinellir ar y map.
   5.1.2. Sgubor Rin – mae'r Cyngor yn dymuno cael gwared o'r eiddo yma (mae hyn wedi bod ar y gweill ers 2019). Maent wedi bod yn trafod efo tenant presennol yr adeilad sy'n ei ddefnyddio fel uned fusnes.
   5.1.3. Cwestiwn o'r llawr: Cafodd y cwestiwn yma ei ateb gan y Cynghorydd Sirol Gwennol Ellis yn eitem 5.1.1.
   Yn dilyn trafodaethau ar yr uchod, penderfynwyd gwahodd 'Swyddog Ystadau a Rheoli Ystadau i'n cyfarfod nesaf gan fod gan y Cynghorwyr nifer o gwestiynau pellach.
6. **Gohebiaeth:**
   6.1. **RWE Renewables –** gofyn am gyfarfod gyda'r Cynghorwyr i drafod y cynllun Fferm Wynt Coedwig Alwen.
7. **Ffurflen Monitro:**
   Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
8. **Mantolen Banc:**
   Edrychwyd dros y fantolen, hyd yma mae popeth mewn trefn
9. **Talu Anfoneb:**
   9.1.1. CBSC – cyfraniad tuag at gostau Gwasanaeth Llyfrgell Conwy cynigiodd ER gyda GJ yn eilio talu'r anfoneb o **£500.00** gyda siec rhif **100388**. (S133)
   9.1.2. Meithrinfa Blodau'r felin – planhigion cynigiodd DE gydag ER yn eilio talu'r anfoneb o **£44.85** gyda siec rhif **100391.** (S19)
   9.1.3. Meithrinfa Blodau Betws y Coed – cynigiodd GJ gyda DE yn eilio talu'r anfoneb am y planhigion o **£39.98** gyda siec rhif **100390.** (S19)
10. **Gair gan y Cyng. Gwennol Ellis:** gweler eitem rhif 5
11. **Unrhyw fater arall:**
    11.1.1. Tynnu'r cerfluniau i lawr – gofyn i Gethin Pyrs os ydi o yn fodlon gwneud y gwaith.
    11.1.2. Cysgodfa bys – angen gweld y dogfennau yswiriant.
    11.1.1. Penderfynwyd archebu Sgip i'r pentref ar gyfer mis Medi 12fed 23 (dydd Mawrth)
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** – **Gorffennaf 3ydd 2023** (i'w gadarnhau)

**Arwyddwyd**____________________________ **Dyddiad** 03.07.23

Cadeirydd